# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 26 Medi 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(83)v3

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (10 munud)

Gweld y cwestiynau

### 3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (0 munud)

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau

### 4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

**NDM5049 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn gresynu nad yw 'Rhaglen Lywodraethu' Llywodraeth Cymru yn cyflawni i bobl Cymru.

Gellir gweld y Rhaglen Lywodraethu drwy fynd i:
http://cymru.gov.uk/docs/strategies/110929fullcy.pdf
Gellir gweld Adroddiad Blynyddol – Mai 2012 y Rhaglen Lywodraethu drwy fynd i:
http://cymru.gov.uk/docs/strategies/120528fullcy.pdf

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi mai un o nodau'r Rhaglen Lywodraethu yw 'lleihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol', ac yn credu y dylai hyn fod yn flaenoriaeth dros y flwyddyn nesaf.

**5. Dadl Plaid Cymru (60 munud)**

**NDM5050 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn croesawu adroddiad McClelland 'Gwneud y Gorau o Bolisi Caffael Cymru';
2. Yn cydnabod gwerth caffael cyhoeddus i economi Cymru;
3. Yn nodi bod diweithdra hirdymor ymhlith pobl ifanc wedi cynyddu bedair gwaith bron dros y flwyddyn ddiwethaf; a
4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol er mwyn rhoi hwb i'r economi:
a) gwneud polisi caffael yn fwy agored i gwmnïau yng Nghymru; a
b) cynyddu gwariant ar brosiectau seilwaith.

Gellir gweld adroddiad McClelland 'Gwneud y Gorau o Bolisi Caffael Cymru' drwy fynd i:
http://cymru.gov.uk/docs/dpsp/publications/valuewales/120919mcclellandreviewfullfinalcy.pdf

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu is-bwynt 4b a rhoi yn ei le:
gweithio'n agos â Llywodraeth y DU i fanteisio i'r eithaf ar brosiectau seilwaith, fel trydaneiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:
gwneud prosesau caffael yn fwy agored i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru drwy ddadfwndelu contractau ar gyfer gwaith y Llywodraeth.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i hyrwyddo arferion gorau mewn prosesau caffael.

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi pwysigrwydd diwydiant adeiladu Cymru wrth roi prentisiaethau i bobl ifanc yng Nghymru.

**6. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)**

**NDM5048 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu rheoleiddiwr cymwysterau ac arholiadau annibynnol i Gymru.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi pwysigrwydd didueddrwydd gwleidyddol wrth reoleiddio cymwysterau ac arholiadau.

**Cyfnod Pleidleisio**

**7. Dadl Fer (30 munud)**

**NDM5051 Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**

Lles anifeiliaid adeg eu lladd

Archwilio cyfleoedd i hybu arfer da a safonau uchel o les anifeiliaid adeg eu lladd.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 2 Hydref 2012